

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

MyDentist, Parc Manwerthu Bae
Baglan, Port Talbot, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 02 Medi 2025

Dyddiad cyhoeddi: 03 Rhagfyr 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o MyDentist, Parc Manwerthu Bae Baglan, Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 02 Medi 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Cafwyd 24 o ymatebion gan gleifion a phump ymateb gan y staff yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr rai o'r cwestiynau, gan olygu nad oedd ymatebion ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Cafwyd adborth cadarnhaol ar y cyfan gan gleifion am y gofal a'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol. Dywedodd pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda' neu'n 'dda iawn.'

Roedd tîm y dderbynfa yn groesawgar iawn ac roedd y staff yn trin y cleifion ag urddas a pharch. Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig.

Cafodd yr apwyntiadau eu trefnu dros y ffôn neu drwy drefnu ar-lein. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad, ond nid oedd sawl unigolyn yn ymwybodol o'r ffordd i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

Roedd amrywiaeth o wybodaeth ar gael ym mhob rhan o'r practis yn hyrwyddo amrywiaeth o driniaethau a chynnyrch deintyddol. Fodd bynnag, nid oedd fawr ddim gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn hawdd i'r cleifion, ond ymdriniwyd â hyn yn ystod yr arolygiad. Rhannodd un claf bryderon ynglŷn â gwerthu cynnyrch a gwasanaethau ychwanegol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y rhoddir gwybod i gleifion am oedi i apwyntiadau yn gyson mewn modd amserol
- Sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu sydd ar gael a'u defnyddio pan fo angen.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cynnig rhagweithiol i ddarparu triniaeth yn y Gymraeg
- Mae'r ffonau a'r dderbynfa wedi'u staffio drwy gydol egwylion cinio.
- Roedd ystafell y cydgysylltydd triniaethau ar wahân ar gael ar gyfer trafodaethau cyfrinachol â chleifion
- Roedd y gwasanaeth yn gwbl hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn a chleifion ag anawsterau symudedd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis deintyddol mewn cyflwr da, ei fod yn ymddangos yn lân a'i fod wedi'i addurno i safon uchel. Roedd yr ardaloedd i gleifion yn daclus ac yn rhydd o beryglon.

Roedd prosesau da ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau a'r defnydd diogel o gyfarpar clinigol. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith mewn perthynas â defnyddio, cynnal a chadw a phrofi'r cyfarpar pelydr-X.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed. Roedd arweinydd wedi'i benodi ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar y pwnc.

Er bod cofnodion deintyddol y cleifion yn dda ar y cyfan, roedd rhai hepgoriadau yn y cynlluniau triniaeth a'r hanesion meddygol yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r staff gwblhau hyfforddiant gloywi ar ddiogelwch tân bob blwyddyn
- Sicrhau bod dewis iaith y cleifion ac unrhyw gamau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r anghenion ieithyddol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Ystafelloedd newid ar wahân i'r staff gael newid yn breifat a loceri storio unigol
- Roedd y rhestrau gwirio a argymhellir yn cael eu defnyddio er mwyn atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir
- Trefniadau absenoldebau staff a pharhad busnes gyda phractisau cangen ar waith i sicrhau parhad gofal.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y tîm rheoli a'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r cleifion. Roedd amrywiaeth dda o bolisiau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac ar gael yn hawdd i'r staff eu gweld a'u cydlofnodi. Roedd trefniadau da ar waith ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol rheolaidd.

Roedd proses recriwtio gadarn ar waith ac mae gwiriadau cyn cyflogi wedi cael eu cynnal. Roedd cofnodion y staff yn cael eu cynnal yn dda gyda lefelau da o gydymffurfiaeth â'r hyfforddiant gorfodol.

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion i'r holiadur staff yn gadarnhaol. Fodd bynnag, roedd un aelod o'r staff yn teimlo ei fod wedi cael ei wahaniaethu ar sail ei oedran.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi manylion i AGIC o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu yn y practis
- Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau arfarnu rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd proses sefydlu wedi'i dogfennu'n llawn ar waith a oedd yn cael ei chymeradwyo gan uwch-aelodau o staff
- Roedd hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei arddangos o'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w adborth
- Cafodd cwynion eu rheoli a'u dadansoddi'n ganolog i nodi themâu a thueddiadau i fynd i'r afael â nhw.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Roedd yr ymatebion a gafwyd i holiadur AGIC yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a atebodd y cwestiwn fod y practis yn 'dda' neu'n 'dda iawn.'

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu Iechyd

Gwnaethom arolygu ardal aros y cleifion a daethom o hyd i amrywiaeth eang o wybodaeth gan gynnwys sgrin arddangos a oedd yn hyrwyddo triniaethau gwynnu dannedd, corunau, dannedd gosod a sythu dannedd. Fodd bynnag, heblaw am gyngor ar roi'r gorau i smygu, nid oeddem yn gallu gweld unrhyw wybodaeth am ofal iechyd y geg fel deiet iach, hylendid ataliol na chynghor ar ganser y geg. Ar adeg yr arolygiad, roedd ardal waith newydd yn cael ei threialu i gofrestru cleifion newydd a rhoi gwybodaeth am ymarfer cyffredinol a gofal iechyd. Fodd bynnag, cafodd y ddarpariaeth hon ei harwain gan y staff a oedd yn golygu nad oedd y cleifion yn gallu gweld na chael gafael ar y wybodaeth yn hawdd. Gwnaethom godi hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a wnaeth sicrhau bod y taflenni gofal iechyd perthnasol yn haws cael gafael arnynt ar gyfer y cleifion.

Roedd enwau aelodau'r tîm deintyddol, a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, wedi'u harddangos fel sy'n ofynnol. Gwelsom fod costau triniaethau'r GIG a thriniaethau preifat, yn ogystal â phroses gwyno'r practis yn cael eu harddangos. Roedd arwyddion ar waith a oedd yn rhoi gwybod i ymwelwyr â'r practis nad oedd smygu yn cael ei ganiatáu ar y safle.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur AGIC i gleifion wrthym fod y staff wedi esbonio gofal y geg wrthynt mewn ffordd y gallent ei deall a dywedodd y rhan fwyaf bod y staff wedi rhoi cyfarwyddiadau ôl-ofal iddynt ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal Urddasol a Pharchus

Gwelsom fod tîm y dderbynfa yn groesawgar iawn, ac roedd y staff yn gwrtais, yn gyfeillgar ac yn trin cleifion â pharch. Gwelsom fod y cytundebau cyfrinachedd yn

rhan o gontractau cyflogaeth y staff. Cafodd preifatrwydd ac urddas y cleifion eu cynnal drwy gadw drysau'r deintyddfeydd ar gau yn ystod triniaethau.

Er bod desg y dderbynfa a'r ardal aros yn yr un ystafell, roedd swyddfa cydgysylltydd triniaethau ar gael a oedd yn cael ei defnyddio i drafod opsiynau triniaeth ac i gael sgysiau cyfrinachol â'r cleifion.

Roedd naw egwyddor ymarfer moesegol craidd y Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) i'w gweld yn glir yn yr ardal aros.

Cytunodd pob un ond un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yn holiadur i gleifion AGIC fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch yn y practis.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiynau yn holiadur AGIC i gleifion eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, a bod y staff wedi gwrandao arnynt a bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn y driniaeth. Roedd pob un yn cytuno bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol yr apwyntiad.

Dywedodd pob un ond un ymatebwr eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall risgiau a manteision eu hopsiynau triniaeth, a'u bod wedi cael eu cynnwys gymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu gofal. Er y dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y prisiau cyn iddynt gael triniaeth, roedd dau ymatebydd yn anghytuno.

Yr unig sylw a roddwyd gan glaf am y gwasanaeth oedd:

“O'r wythnos cyn yr apwyntiad tan yr eiliad rydych yn cyrraedd, rydych yn cael eich trin fel darpar gwsmer y mae angen ‘croes werthu’ cymaint o gynnyrch â phosibl i chi. O'r arolwg cyn gofal, y ffurflenni i'w chwblhau, y dogfennau a roddwyd - mae popeth yn cael ei wneud yn benodol i gael cyfleoedd i werthu. Nid oes trafodaeth am ofal na gwasanaeth fel claf. Dim ond cynnyrch fel cwsmer.”

Amserol

Gofal Amserol

Roedd oriau agor y practis a rhifau cyswllt mewn argyfwng yn cael eu harddangos yn glir a gellid eu gweld o'r tu allan i'r adeilad. Roedd y rhain yn cynnwys oriau agor estynedig ar ddydd Mawrth ac ar ddydd Mercher ar gyfer cleifion preifat, a chafodd gwyliau hanner tymor eu defnyddio ar gyfer plant ysgol lle bynnag y bo'n

bosibl. Dywedwyd wrthym y byddai achosion o oedi yn y gwasanaeth yn cael eu cyfathrebu gan staff y dderbynfa pan oeddent yn ymwybodol ohonynt, er y dywedwyd wrthym fod clinigwyr weithiau yn methu â rhoi gwybod iddynt pan fyddant yn hwyr.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y rhoddir gwybod i gleifion am oedi i apwyntiadau yn gyson mewn modd amserol.

Gellid trefnu apwyntiadau dros y ffôn neu drwy drefnu ar-lein a chaiff negeseuon atgoffa eu hanfon drwy neges destun neu e-bost. Gwelsom fod y ffonau a'r dderbynfa wedi'u staffio drwy gydol egwylion cinio. Dywedwyd wrthym y dylai'r cleifion y mae angen triniaeth frys arnynt ffonio am 08:00am, lle y caiff achosion eu blaenoriaethu gan staff y dderbynfa ac unrhyw ymholiadau eu hatgyfeirio at y clinigwyr. Dywedwyd wrthym y gallai cleifion fel arfer yn aros rhwng un a chwe wythnos rhwng apwyntiadau gan ddibynnu ar y deintydd a natur y driniaeth.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion ei bod hi'n hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt, er bod tri wedi anghytuno. Er y dywedodd 16 o'r ymatebwyr eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai problem ddeintyddol frys yn codi, dywedodd wyth ymatebydd nad oeddent yn gwybod.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod llawer o'r wybodaeth ysgrifenedig a oedd i'w gweld yn y practis ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod y Cynnig Rhagweithiol i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg yn cael ei ddarparu. Dywedwyd wrthym y cafodd dewis iaith y claf ei gadarnhau ar y cam cofrestru cychwynnol â'r practis. Roedd gwasanaeth cyfieithu priodol ar gael i'r cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, er bod y staff yn ymddangos yn ansicr am y ddarpariaeth hon gan ddweud wrthym eu bod wedi defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar-lein yn lle hynny.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn gwbl ymwybodol o wasanaethau cyfieithu priodol a'u defnyddio lle bo angen.

Roedd system dolen sain ar waith er mwyn helpu cleifion ag anawsterau clywed. Dywedwyd wrthym y gellid argraffu gwybodaeth mewn ffont mawr os bydd angen ac roedd chwyddwydrau hefyd ar gael pe bai'r cleifion yn dewis hynny.

Hawliau a Chydraddoldeb

Roeddem o'r farn bod y practis yn ymrwymedig i roi gofal deintyddol mewn modd a oedd yn cydnabod anghenion a hawliau'r cleifion, gyda rhagenwau ac enwau a

ffefrir yn cael eu defnyddio ar gyfer cleifion trawsryweddol ar gais. Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith ac mae hyfforddiant ar y pwnc wedi cael ei gwblhau gan y staff.

Dywedodd pob un ond un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC i gleifion wrthym nad oeddent wedi profi gwahaniaethu wrth gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir gan y practis.

Roedd y practis wedi'i leoli ar y llawr gwaelod, ac roedd lloriau gwastad ym mhob rhan ohono a drysau llydan i bob deintyddfa. Roedd desg y dderbynfa'n cynnwys rhan is ar gyfer pobl sy'n defnyddio cadair olwyn. Gwnaethom nodi mynediad hawdd i'r practis o'r maes parcio ac roeddem o'r farn bod toiled y cleifion yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn gyda digon o le i symud, ac mae canllawiau a chortyn tynnu mewn argyfwng wedi'u gosod.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli Risg

Roedd y practis deintyddol yn lân, yn fawr, yn olau ac yn ymddangos ei fod mewn cyflwr da. Y tu mewn i'r safle, roedd yr amgylchedd wedi'i addurno a'i ddodrefnu i safon uchel ac mae'r ardaloedd i gleifion yn gyfforddus ac yn rhydd rhag peryglon.

Gwelsom fod polisi iechyd a diogelwch cyfredol ar waith ac roedd poster iechyd a diogelwch cymeradwy yn cael ei arddangos yn yr ystafell staff. Cafodd yswiriant atebolrwydd cyflogwr dilys ei arddangos yn glir. Roedd ystafelloedd newid ar wahân ar gael i'r staff newid yn breifat a loceri unigol i storio eu heiddo personol.

Roedd polisi parhad busnes ar waith, gyda threfniadau wrth gefn i'w dilyn mewn argyfwng pe na fyddai'n bosibl darparu'r ystod lawn o wasanaethau yn sgil digwyddiad annisgwyl. Gwelsom fod hyn wedi cynnwys y defnydd o bractisau eraill yn y grŵp corfforaethol.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau diogelwch tân ac roeddem o'r farn eu bod yn briodol gydag asesiad risg tân ar waith a oedd yn destun adolygiadau blynyddol. Gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân rheolaidd a phrofion o'r systemau larwm a synhwyro wedi cael eu cynnal. Roedd y dyfeisiau diffodd tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, gwnaethom adolygu hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân a gwelsom fod angen i 15 o aelodau o'r staff gwblhau hyfforddiant gloywi blynyddol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system effeithio ar waith i sicrhau bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân diweddaraf mewn modd amserol.

Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi

Roedd polisi cyfredol mewn perthynas â phrosesau atal a rheoli heintiau ar waith, ac roedd arweinydd dynodedig wedi cael ei benodi. Roedd pob ardal a ddefnyddir yn lân yr olwg ac wedi'u dodrefnu mewn ffordd a oedd yn golygu y gellid eu glanhau'n effeithiol. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael ac yn cael ei ddefnyddio gan y staff, a bod cyfleusterau hylendid dwylo addas wedi'u gosod. Nodwyd gennym fod yr archwiliad atal a rheoli heintiau diweddaraf wedi cael ei gwblhau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd cymorth iechyd galwedigaethol priodol ar gael a chafodd brechiadau'r staff eu trefnu drwy gontract corfforaethol. Gwelsom fod biniau offer miniog wedi'u

lleoli a'u rheoli'n addas, a chafodd protocolau eu harddangos ym mhob deintyddfa i gynghori'r staff ar y camau i'w cymryd pe bai rhywun yn cael anaf nodwydd.

Gwnaethom arsylwi'r broses o ddihalogi'r practis ac roeddem o'r farn bod hyn yn briodol. Roedd yr ystafell ddihalogi yn drefnus iawn ac yn cynnwys system addas i gludo offer yn ddiogel rhwng y deintyddfeydd a'r ystafell ddihalogi. Gwelsom dystiolaeth bod gwaith cynnal a chadw rheolaidd a chyfnodol o'r cyfarpar dihalogi a bod gwiriadau dechrau a diwedd y dydd wedi'u cwblhau.

Roedd contractau ar waith i drosglwyddo gwastraff o'r practis yn ddiogel a chafodd gwastraff clinigol ei wahanu a'i storio'n ddigonol wrth aros i gael ei gasglu. Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith mewn perthynas â sylweddau sy'n destun rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH).

Gwnaethom nodi bod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis wedi cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau a gwelsom dystiolaeth o hyn yn sampl y ffeiliau staff y gwnaethom eu hadolygu.

Roedd pob un o'r ymatebwyr a atebodd holiadur AGIC i gleifion o'r farn bod y lleoliad yn 'lân iawn', ac roedd pob un ond un yn teimlo bod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn.

Rheoli Meddyginiaethau

Gwelsom fod polisi rheoli meddyginiaethau ar waith a bod systemau addas yn cael eu defnyddio ar gyfer archebu, trin a chael gwared ar gyffuriau a gwelsom fod y padiau presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel. Gwelsom fod arwyddion wedi'u harddangos i atgoffa cleifion i roi gwybod i'r staff am unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol.

Roedd gan y practis bolisi ar waith ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol a oedd yn seiliedig ar y canllawiau adfywio cenedlaethol. Gwnaethom archwilio'r cyfarpar a'r cyffuriau i'w defnyddio mewn achos o argyfwng a gwelsom fod system addas ar waith ar gyfer gwirio stociau a monitro dyddiadau dod i ben meddyginiaethau a chyfarpar. Gwnaethom gadarnhau fod y staff a oedd yn gweithio yn y practis wedi cwblhau'r hyfforddiant adfywio diweddaraf.

Gwelsom fod y silindrau ocsigen wedi cael eu gwasanaethu yn ôl yr angen a gwelsom fod y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei wirio bob mis, yn cynnwys stoc briodol a bod yr holl eitemau'n gyfredol. Roedd dau swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig wedi'u penodi i sicrhau bod swyddog ar gael pan fyddai swyddogion eraill ar wyliau neu'n sâl.

Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol

Roedd y cyfarpar clinigol yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da. Gwelsom amserlenni o waith cynnal a chadw yn cael eu rheoli drwy feddalwedd gydymffurfio a chofnodion gwirio dyddiol. Roeddem o'r farn bod trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag unrhyw achosion o gyfarpar yn methu.

Gwelsom fod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol ac wedi cael y profion angenrheidiol a bod asesiad risg ymbelydredd ar waith. Roedd arwyddion priodol ar ddrws pob deintyddfa. Roedd y rheolau lleol ar gyfer defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel ar gael yn hawdd ac roedd gwybodaeth sy'n cynghori cleifion am risgiau a manteision pelydrau-X deintyddol yn cael ei harddangos ym mhob deintyddfa. Gwnaethom drafod sicrhau bod y wybodaeth am risgiau a manteision hefyd ar gael yn ardal aros y cleifion a gellid cofnodi'r cyngor a roddwyd gan y clinigydd ar y pwnc hwn mewn nodiadau cleifion fel arfer da.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o staff a oedd yn gysylltiedig â'r defnydd o belydrau-X wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol.

Diogelu Plant ac Oedolion

Roedd polisi diogelu cyfredol addas ar waith ac mae manylion cyswllt y tîm diogelu lleol wedi'u cynnwys ac ar gael yn hawdd. Cafodd arweinydd diogelu'r practis ei benodi. Gwnaethom drafod y dylai siartiau llif diogelu i gyfeirio atynt yn gyflym fod ar gael ym mhob deintyddfa er mwyn eu defnyddio'n hawdd os bydd pryder.

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar brosesau amddiffyn plant ac oedolion, ac roeddent yn gwybod â phwy i gysylltu pe bai ganddynt bryder.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod digon o staff yn y practis sydd wedi cael hyfforddiant i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd y staff yn glir ynghylch eu rolau yn y practis a chawsom sicrwydd fod canllawiau proffesiynol a statudol yn cael eu dilyn wrth ddarparu triniaeth. Roedd rhestrau gwirio a argymhellir i leihau'r risg o dynnu'r dant anghywir yn cael eu defnyddio.

Cofnodion Cleifion

Gwelsom fod system addas ar waith ar gyfer rheoli cofnodion cleifion yn ddiogel a bod cyfrineiriau'n cael eu newid yn rheolaidd. Roedd polisiâu priodol ar waith i amddiffyn hawliau cleifion nad oes ganddynt alluedd o bosibl. Dywedwyd wrthym fod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, a bod polisi cadw data ar waith.

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal deintyddol naw claf, ac ar y cyfan, roeddem o'r farn bod y cofnodion hyn o safon dda. Roedd gan bob cofnod ddynodyddion cleifion addas, y rheswm dros yr apwyntiad, y cydsyniad ar sail gwybodaeth a gafwyd, a sgrinio am ganser ar gofnod. Fodd bynnag, roedd rhai bylchau yn y cofnodion. Gwelsom nad oedd rhai hanesion meddygol wedi cael eu llofnodi gan y claf na ddeintydd y claf, ac nad oedd copi o hanes meddygol un claf wedi'i sganio. Gwelsom fod un rhaglen o driniaeth wedi cael ei chyflawni, ond nad oedd cynllun triniaeth wedi'i gynhyrchu, ac nad oedd gwrthfotigau sydd wedi cael eu rhoi i un claf yn seiliedig ar y canllawiau cenedlaethol. Nodwyd gennym hefyd nad oedd dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Rhoi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion.
- sicrhau bod dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag unrhyw anghenion ieithyddol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Effeithlon

Effeithlon

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod y practis yn gweithredu mewn ffordd effeithlon a oedd yn cynnal safonau ansawdd y gofal, gyda digon o glinigwyr ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Roedd rhestr byr rybudd yn cael ei defnyddio i alluogi'r staff i ail-lenwi apwyntiadau a oedd wedi'u canslo. Gwnaethom arsylwi ar y broses atgyfeirio a gwelsom fod y rhain yn cael eu cofnodi gyda chatau dilynol yn cael eu rhaglenni i'r amserlen fel nodyn atgoffa.

Roedd y cyfleusterau a'r safle mewn cyflwr da ar gyfer y gwasanaethau a gaiff eu darparu ar hyn o bryd a bydd cyfleoedd i wella'r broses symud drwy'r llwybrau triniaeth mewnol gyda'r gwaith datblygu sy'n mynd rhagddo yn y gwasanaeth ar hyn o bryd.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan staff

Ymatebodd pum aelod o staff i holiadur AGIC a chafwyd ymatebion cadarnhaol ar y cyfan. Roedd y sylwadau yn ymwneud ag urddas y cleifion a llesiant y staff yn gadarnhaol, ac roedd pob un o'r ymatebwyr yn fodlon mai gofal cleifion oedd prif flaenoriaeth y practis. Dywedodd pob un ohonynt y byddent yn hapus gyda safon y gofal a ddarperir pe bai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr eu bod o'r farn bod y cyfleusterau yn briodol i gyflawni eu tasgau, gyda deunyddiau digonol a mynediad i dechnolegau gwybodaeth i gyflawni eu dyletswyddau. Dywedodd pob un ohonynt fod cyfarpar diogelu personol priodol ar gael a'i fod yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, er y dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod digon o staff i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol, roedd dau ymatebydd yn anghytuno bod cymysgedd priodol o sgiliau yn y practis.

Er bod y rhan fwyaf o'r staff (4/5) a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod eu patrwm gwaith yn eu galluogi i gael cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith ac nad oedd eu gwaith yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd, dywedodd pob un ohonynt y byddent yn argymhell y practis fel lle da i weithio.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwelsom fod strwythur rheoli clir ar waith, sy'n galluogi'r practis i redeg yn effeithiol. Roedd rheolwr y practis yn cael ei gefnogi gan reolwr cydymffurfiaeth yr ardal a rhwydwaith corfforaethol ehangach.

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol â'r staff a gwelsom fod cofnodion o gyfarfodydd tîm misol yn cael eu cofnodi a'u rhannu â'r staff nad oeddent yn gallu bod yn bresennol.

Gwelsom fod amrywiaeth dda o bolisiau ar gael i'r staff i'w helpu yn eu rolau. Roedd y rhain wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd ac wedi'u cydlofnodi gan y staff i gadarnhau eu bod wedi cael eu darllen a'u deall.

Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC yn cytuno bod cyfleoedd teg a chyfartal ar gael iddynt yn y gweithle, ac roeddent yn teimlo bod y gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Fodd bynnag, nododd un aelod o'r staff ei

fod wedi wynebu gwahaniaethu ar sail ei oedran yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu yn y practis.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cyflogi staff, gyda pholisïau a gweithdrefnau yn cynnwys gwybodaeth am y broses recriwtio. Roedd y gwiriadau cyn cyflogi yn cynnwys cymwysterau proffesiynol priodol, prawf adnabod, brechiadau a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Disgrifiwyd proses sefydlu addas ar gyfer cyflogeion newydd er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Gwelsom dystiolaeth bod y broses hon wedi'i dogfennu'n llawn a'i llofnodi gan y goruchwylydd.

Cafodd disgrifiadau swydd, contractau cyflogi a geirdaon ysgrifenedig ar gyfer y cyflogeion eu cadw yn ffeiliau'r staff. Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn defnyddio staff asiantaeth, a chaiff gwyliau neu absenoldebau eu llenwi gan staff o bractisau cangen eraill.

Gwelsom fod cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant gorfodol yn dda a gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant ychwanegol ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w rolau yn y practis. Dywedwyd wrthym fod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad blynyddol i drafod ei berfformiad a phennu amcanion datblygu.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo eu bod wedi cwblhau hyfforddiant priodol i gyflawni eu rôl yn y practis ond roedd un aelod o'r staff yn anghytuno. At hynny, dywedodd dau ymatebydd nad oeddent wedi cael adolygiad nac arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad a bod proses yn cael ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod yr arfarniadau hyn yn cael eu cynnal mewn modd amserol.

Diwylliant

Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu

Gwelsom fod amrywiaeth o drefniadau i geisio adborth gan gleifion ar waith gan gynnwys y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ac anfon arolygon cleifion drwy

neges destun yn dilyn pob apwyntiad. Roedd blwch awgrymiadau ar gael i alluogi cleifion nad oedd ganddynt ddyfeisiau digidol i roi adborth yn ddiennw.

Dywedwyd wrthym y cafodd adborth gan gleifion ei asesu a'i ddadansoddi'n ganolog a bod y canlyniadau ac unrhyw gamau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r tîm rheoli i'w trafod yn ystod cyfarfodydd tîm. Gwelsom fod hysbysiad 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei arddangos yn yr ardal aros i gleifion i'w hysbysu am newidiadau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth.

Roedd gweithdrefn gwyno'r practis i'w gweld yn yr ardal aros. Roedd hyn yn nodi amserlenni ymateb, yn nodi'r aelod o'r staff a neilltuwyd i ymdrin â chwynion ac yn cynnwys manylion am sut i uwchgyfeirio mater os bydd angen. Gwelsom fod y cofnodlyfr cwynion yn cael ei reoli'n ganolog gan dîm Cymorth i Gleifion y grŵp a gwelsom fod hyn yn cael ei ddadansoddi er mwyn nodi tueddiadau neu themâu y gallai fod angen ymdrin â nhw.

Roedd gan y practis bolisi Dyletswydd Gonestrwydd cyfredol ar waith, a oedd yn rhoi arweiniad ac yn nodi cyfrifoldebau'r staff. Dywedwyd wrthym na fu unrhyw ddigwyddiadau lle bu angen arfer y Ddyletswydd Gonestrwydd. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn ymwybodol o'r Ddyletswydd Gonestrwydd ac yn deall eu rôl o ran cyrraedd y safonau hyn. Roedd pob un ohonynt yn cytuno bod y practis yn eu hannog i godi pryderon pan fyddai rhywbeth wedi mynd o'i le ac i rannu hyn â'r claf.

Gwybodaeth

Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol

Roedd y practis yn defnyddio systemau priodol i reoli cofnodion y cleifion, polisiau a gweithdrefnau a chofnodion hyfforddiant y staff. Roedd polisiau rheoli data corfforaethol addas ar waith a oedd yn rhoi gwybodaeth am drefniadau ar gyfer trin gwybodaeth am gleifion yn ddiogel.

Dysgu, Gwella ac Ymchwil

Gweithgareddau Gwella Ansawdd

Fel rhan o weithgareddau gwella' practis, gwelsom raglen dda o archwiliadau gan gynnwys cofnodion clinigol, rhagnodi gwrthfotigau a phelydrau-X. Roedd archwiliadau lechyd a Diogelwch a mynediad i bobl anabl yn mynd rhagddynt ar adeg yr arolygiad.

Dywedwyd wrthym fod adolygiadau cymheiriaid yn cael eu cynnal drwy ddefnyddio hierarchaeth y staff clinigol a'r adolygiadau. Roedd adnodd rheoli busnes corfforaethol yn cael ei ddefnyddio i fonitro a dangos cydymffurfiaeth ag asesiadau risg, archwiliadau a safonau arferion gorau eraill.

Dull Systemau Cyfan

Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu

Dywedwyd wrthym fod gan y practis gysylltiadau da â'r bwrdd iechyd lleol gyda threfniadau addas ar gyfer ymgysylltu rhwng a'r fferyllfa leol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y practis wedi cael trafferth wrth geisio cysylltu â phractisau meddyg teulu lleol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chafodd unrhyw bryderon uniongyrchol eu datrys yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: MyDentist, Parc Manwerthu Bae Baglan, Port Talbot

Dyddiad yr arolygiad: 02 Medi 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: MyDentist, Parc Manwerthu Bae Baglan, Port Talbot

Dyddiad yr arolygiad: 02 Medi 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Byddai achosion o oedi yn y gwasanaeth yn cael eu cyfathrebu gan staff y dderbynfa pan oeddent yn ymwybodol ohonynt, er y dywedwyd wrthym fod clinigwyr weithiau yn methu â rhoi gwybod iddynt pan fyddant yn hwyr.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y rhoddir gwybod i gleifion am oedi i apwyntiadau yn gyson mewn modd amserol.	Safon Ansawdd - Amserol	Caiff cyfarfod practis ei drefnu i drafod rhoi gwybod i'r cleifion wrth iddynt gyrraedd pe bai'r deintydd yn hwyr	Rheolwr y Practis	23/11/2025
Roedd gwasanaeth cyfieithu priodol ar gael i'r cleifion nad Saesneg oedd eu hiaith gyntaf, er bod y staff yn ymddangos yn ansicr am y ddarpariaeth hon a	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn gwbl ymwybodol o wasanaethau cyfieithu priodol a'u defnyddio lle bo angen.	Rheoliad 13(1)(a)	Roedd gwasanaethau cyfieithu Language Line yn hytrach na Google Translate ar waith ar ddiwrnod yr arolygiad. Ers hynny,	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau

dywedwyd wrthym eu bod wedi defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar-lein yn lle hynny.			mae'r staff wedi cael gwybod am y newid i drefniadau cyfathrebu a chafodd hyn ei gofnodi fel digwyddiad o bwys		
Roedd angen i 15 o aelodau o'r staff gwblhau hyfforddiant blynyddol ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system effeithio ar waith i sicrhau bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân diweddaraf mewn modd amserol.	Rheoliad 22(4)(c)	Mae hyfforddiant blynyddol ar ddiogelwch tân bellach wedi cael ei gwblhau ar gyfer pob aelod o'r staff	Rheolwr y Practis	Wedi'i gwblhau
Roedd rhai bylchau yng nghofnodion y cleifion gan gynnwys hanes meddygol heb eu llofnodi, cynllun triniaeth ar goll a dewisiadau iaith heb eu cofnodi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: • rhoi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'n canfyddiadau mewn perthynas â chyflawnder cofnodion y cleifion • sicrhau bod dewis iaith y cleifion a'r camau a gymerwyd i fynd i'r	Rheoliadau 20(1)(a)(i) a (ii) Rheoliad 13(1)(a)	Caiff ymweliad gan y cynghorydd datblygu clinigol ei drefnu i drafod pwysigrwydd cael hanes meddygol a rhoi cynlluniau triniaeth Rhoddwyd y cynnig rhagweithiol ar waith ar ddiwrnod yr	Rheolwr y Practis Rheolwr y Practis	23/11/2025

	afael ag unrhyw anghenion ieithyddol yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.		arolygiad a bydd yn parhau i gael ei gofnodi		Wedi'i gwblhau ac yn barhaus
Nododd un aelod o'r staff iddo wynebu gwahaniaethu ar sail ei oedran yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu yn y practis.	Deddf Cydraddoldeb 2010	Am na ellir adnabod yr unigolyn, caiff y polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ei rannu eto yng nghyfarfod nesaf y practis. Bydd sgysiau un i un wedi'u cofnodi hefyd yn digwydd er mwyn trafod yr hyn sy'n gweithio'n dda ac i nodi a oes angen unrhyw gymorth ychwanegol	Rheolwr y Practis	23/11/2025
Dywedodd dau aelod o'r staff nad oeddent wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad a bod proses yn cael ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod yr	Rheoliad 17(4)	Bydd adolygiad llawn o'r holl arfarniadau a gwblhawyd yn digwydd a byddwn yn cwblhau arfarniadau ar gyfer unrhyw aelodau o'r	Rheolwr y Practis	23/11/2025

arfarniadau hyn yn cael eu cynnal mewn modd amserol.	staff nad oeddent wedi cael arfarniad yn ystod y 12 mis diwethaf
--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Rebecca Morse a Sarah-Jane Davies

Teitl swydd: Rheolwr y Practis a Swyddog Rheoleiddio

Dyddiad: 23/10/2025